# Damcaniaethau - nodiadau i athrawon

## Esboniadau damcaniaethol mewn perthynas ag iechyd a salwch

Mae nifer o ddamcaniaethau sy'n egluro iechyd a salwch. Dylai myfyrwyr:

- gwybod a deall pob un ohonynt (AA1).
- gallu dehongli a chymhwyso deunydd perthnasol (AA2).
- gwerthuso pob un ohonynt (AA3).

Ar lefel Safon Uwch, dyrennir y rhan fwyaf o'r marciau i AA3, felly mae'n bwysig iawn bod myfyrwyr yn deall pwysigrwydd gwerthuso.

Gall gwerthusiad fod yn gadarnhaol neu'n negyddol, ond dylid gwerthuso'n barhaus drwy gydol traethodau. Bydd cwestiynau yn gofyn am werthuso, trafod, asesu neu unrhyw derm arall sy'n gofyn yn benodol i'r myfyriwr ystyried syniadau/damcaniaethau/esboniadau neu safbwyntiau.

Am ragor o fanylion am AA3, gweler Adran 7 isod.

Mae'r adrannau canlynol yn cynnig ffordd o ddeall y damcaniaethau sy'n gysylltiedig ag iechyd ac anabledd.

© WJEC CBAC LTD 2017

## Adran un - iechyd a salwch

Cyn gwerthuso esboniadau damcaniaethol o iechyd a salwch, dylid atgoffa'r dysgwyr o'r diffiniadau o iechyd (gweler uned un).

Cyflwr o lesiant corfforol, meddyliol a chymdeithasol cyflawn yn hytrach na dim ond diffyg afiechyd neu wendid.

Gan ddefnyddio'r adnodd rhyngweithiol, trafodwch p'un a ellid ystyried bod unigolyn ag unrhyw un o'r pethau a enwir neu sy'n gwneud unrhyw rai o'r pethau a enwir yn sâl ai peidio.

| Symptom/au | Sâl | Ddim yn sâl | Efallai |
|---|---|---|---|
| Unigolyn â chanser yr ysgyfaint. | | | |
| Unigolyn sydd wedi torri ei fys wrth goginio. | | | |
| Myfyriwr â phen mawr ar ôl yfed. | | | |
| Alcoholig. | | | |
| Unigolyn â meigryn. | | | |
| Unigolyn sy'n siarad ag ef ei hun wrth siopa mewn archfarchnad. | | | |
| Merch feichiog. | | | |
| Unigolyn hŷn sydd weithiau'n anghofus. | | | |
| Unigolyn sydd dros bwysau. | | | |
| Unigolyn sy'n gaeth i gamblo. | | | |

## Adran 2 - Swyddogaethol

Defnyddiwch yr adnodd rhyngweithiol a'r wybodaeth isod i ddeall y ddamcaniaeth swyddogaethol.

Esboniad swyddogaethol.

Mae gwaith Parsons yn fan cychwyn hanfodol o ran swyddogaetholdeb.

Dadleuodd Parsons fod hawliau a rhwymedigaethau penodol yn berthnasol i bobl sy'n sâl neu sy'n mynd yn sâl. Dadleuodd fod bod yn sâl yn wyredig a bod angen poblogaeth iach er mwyn sicrhau cymdeithas gwbl weithredol. Dadleuodd fod angen rheoliadau a phobl, meddygon, ar gymdeithas, a allai arfer rhywfaint o reolaeth dros y rheini sy'n mynd yn sâl er mwyn atal pobl rhag rhoi'r gorau i'w rolau cymdeithasol.

Dadleuodd fod cyswllt annatod rhwng hawliau a rhwymedigaethau pobl.

© WJEC CBAC LTD 2017

# Damcaniaethau - nodiadau i athrawon

**Tasg 1: Gan ddefnyddio'r esboniad swyddogaethol fel man cychwyn, trafodwch pa hawliau a allai fod gan unigolyn sy'n sâl?**

Dylai'r ymatebion gynnwys y canlynol:

Dadleuodd Parsons fod gan unigolyn sy'n sâl ddwy hawl:

1. Mae ganddo'r hawl i beidio â gweithio ac i beidio ag ymgymryd â'i weithgareddau cymdeithasol arferol.
2. Mae ganddo'r hawl i gael help gan weithiwr meddygol proffesiynol ac i beidio â derbyn bai am ei salwch.

Unwaith y bydd unigolyn yn sâl, mae rhwymedigaethau arno hefyd.

**Tasg 2: Pa rwymedigaethau a allai fod arno, yn eich barn chi?**

Dylai'r ymatebion gynnwys y canlynol:

1. Cael cyngor meddygol er mwyn gwella cyn gynted â phosibl ac felly ddychwelyd at ei rolau cymdeithasol arferol megis gwaith.
2. Dilyn y cyngor a roddir er mwyn ceisio gwella.

Dadleuodd Parsons oni fydd yr unigolyn sy'n sâl yn cytuno i wneud yr uchod, efallai na chymerir ei salwch o ddifrif, na chaiff ei ystyried yn ddilys.

**Tasg 3: Dadansoddwch y ddogfen 'Beirniadaethau o Parsons'**

Dylai dysgwyr ddechrau gallu trafod gwahanol safbwyntiau ar swyddogaetholdeb.

Dim ond i afiechydon llym y mae'r model hwn yn berthnasol mewn gwirionedd. Mae'n bosibl y bydd unigolyn â chyflwr hirdymor megis MS am fod yn iach ond na all wella.

Yn ogystal, mae'r tebygolrwydd y bydd unigolyn yn mynd at feddyg yn dibynnu ar ddosbarth, ethnigrwydd a rhyw - gweler Uned 7.

© WJEC CBAC LTD 2017

## Adran 3 - Marcsaidd

Defnyddiwch yr adnodd rhyngweithiol a'r wybodaeth isod i ddeall y ddamcaniaeth Farcsaidd

Esboniadau Marcsaidd

Yn yr un modd â swyddogaetholdeb, mae Marcsaeth yn cynnig esboniad strwythurol o gymdeithas.

Mae Marcswyr yn dadlau bod y GIG, sydd am ddim i'w ddefnyddio, o fudd i bob aelod o gymdeithas, y rheini sy'n sâl a chyflogwyr y mae angen gweithlu iach arnynt.

Mae Marcswyr yn canolbwyntio ar nifer o agweddau ar iechyd

Y GIG



Ganed Harry Leslie Smith yn 1923

Gwyliwch y fideo ar YouTube

Tasg 1: Sut mae Harry Smith yn dadlau bod y GIG o fudd i bawb?

Dylai'r ymatebion gynnwys y canlynol:

Mae rhai Marcswyr yn dadlau, fel y gwna Harry Smith, fod y GIG yn fuddugoliaeth i'r dosbarth gweithiol. Am y tro cyntaf, gallent fynd at feddyg heb boeni sut y byddent yn talu am yr ymweliad neu am driniaeth. Byddai'n cael gwared ar anghydraddoldebau iechyd.

Fodd bynnag, yn amlwg ni lwyddodd i wneud hynny - gweler Unedau 5 a 7.

Tasg 2: Trafodwch yr anghysondeb a nodir gan Doyal rhwng darparu gofal iechyd am ddim ac anghenion cyfalafiaeth i wneud elw.

Dylai'r dysgwyr ddarllen erthygl Doyal.

Beirniadaethau o'r safbwynt Marcsaidd.

Dychwelwch at y darn gan Harry Smith. Mae'n dadlau'n glir er gwaethaf holl ddiffygion y GIG ei fod o fudd

sylweddol i bobl, yn arbennig y dosbarth gweithiol. Serch hynny, y dosbarth canol oedd yn defnyddio'r gwasanaethau pan gafodd ei sefydlu gyntaf yn y 1940au, a nododd Tudor-Hart (1971) a Le Grand (1971) fod deddf gofal gwrthdro ar waith, hynny yw bod y rheini â'r anghenion mwyaf yn dueddol o gael llai na'r rheini â llai o anghenion.

Mae swyddogaethwyr yn dadlau bod tlodi a salwch yn ymwneud yn rhannol â'r ffordd o fyw a fabwysiedir gan bobl. Gweler Uned 5 - Esboniadau diwylliannol o salwch.

Mae ôl-fodernwyr yn dadlau mae metaddamcaniaeth yw'r ddamcaniaeth Farcsaidd ac na all un ddamcaniaeth gynhwysfawr egluro'r ffordd y mae cymdeithas yn gweithio. Mae nifer o ddamcaniaethau sy'n cystadlu â'i gilydd. Gweler Adran 6.

Mae ffeministiaid yn dadlau nad yw'r dadansoddiad Marcsaidd o iechyd ac anabledd yn rhoi llawer o sylw i rywedd. Gweler Adran 5.

Mae rhyngweithredwyr yn dadlau nad yw'n ymdrin â'r ystyron na'r cymhellion y mae pobl yn eu cysylltu â'u gweithredoedd nhw ac eraill, er enghraifft, fel y gwelir yn y gydberthynas rhwng y meddyg a'r claf. Gweler Adran 4.

## Adran 4 - Rhyngweithredol

Defnyddiwch yr adnodd rhyngweithiol a'r wybodaeth isod i ddeall y ddamcaniaeth ryngweithredol

Esboniadau rhyngweithredol

Mae gan ryngweithredwyr ddiddordeb yn y ffordd y mae unigolion yn llywio cymdeithas. Mae ganddynt ddiddordeb yn yr ystyron y mae pobl yn eu rhoi i'w gweithredoedd ac i weithredoedd eraill. O ran iechyd ac anabledd, mae hyn yn golygu bod ganddynt ddiddordeb yn y ffyrdd y mae meddygon a chleifion yn rhyngweithio. O ran y rhyngweithio hwn, mae ganddynt ddiddordeb yn y ffyrdd y mae meddygon yn ceisio gorfodi eu safbwyntiau ar gleifion ac i'r gwrthwyneb sut y gallai cleifion weithiau wrthod y diagnosis a'r cyngor a roddir iddynt. Mae ganddynt ddiddordeb hefyd yn y ffyrdd y mae cleifion yn ceisio cael meddygon i wrando arnynt.

Gwaith ymchwil ansoddol ar raddfa fach yw'r rhan fwyaf o'r gwaith ymchwil gan ryngweithredwyr ym maes iechyd ac anabledd, y mae llawer ohono wedi canolbwyntio ar y gydberthynas rhwng y meddyg a'r claf.

Un o agweddau allweddol rhyngweithredoldeb yw labelu.

Tasg 1: Sut y gallech gymhwyso'r ddamcaniaeth labelu at iechyd ac anabledd?
Ysgrifennwch baragraff manwl a nodwch enwau perthnasol.

Dylai'r ymatebion gynnwys y canlynol:

Gall claf gael ei labelu pan gaiff ddiagnosis neu gan ffrindiau a theulu. Er y bydd pobl o bosibl yn ceisio ymwrthod â'r label, mae'n aml yn anodd, yn enwedig pan fydd salwch wedi'i stigmateiddio. Cysylltwch â

gwaith Goffman.

Edrychwch ar waith Rosenhan et al sy'n ymdrin â'r anhawster a gaiff cleifion i ymwrthod â label unwaith y byddant wedi cael eu derbyn i ysbyty seiciatrig. Hefyd, gwyliwch 'One Flew Over the Cuckoo's Nest'.

Mae'n bosibl y caiff cleifion a gaiff eu derbyn i wardiau cyffredinol a fydd yn ceisio ymwrthod â threfn yr ysbyty hefyd eu labelu fel unigolion 'nad ydynt yn barod i gydymffurfio'.

Tasg 2: Gan ddefnyddio'r cyfeiriadau canlynol, deallwch eu safbwyntiau ar iechyd a salwch.

Becker – damcaniaeth labelu.

Goffman – stigma a stigmateiddio anabledd.

Scambler – gwaith ymchwil ar ferched a'u hymweliadau â'r meddyg.

Tesh – gwaith ymchwil ar RSI a'r gwahanol ddehongliadau o RSI gan gyflogwyr, undebau a seiciatryddion/ meddygon.

Mae gan ryngweithredwyr hefyd ddiddordeb yn y ffordd y caiff ystadegau morbidrwydd a marwolaeth eu llunio ar sail gymdeithasol.

Tasg estynedig

Tasg 3: Sut y gellid llunio ystadegau ar iechyd ar sail gymdeithasol, yn eich barn chi? Sut y gall claf gyfrannu at y ffordd y caiff ystadegau morbidrwydd eu llunio ar sail gymdeithasol?

Ystyriaethau pellach:

Rhai beirniadaethau o ryngweithredoldeb

1. Mae Giddens (1991) yn dadlau bod pobl yn gweithredu o fewn cyfyngiadau cymdeithasol, er enghraifft, gall unigolyn ddewis mynd at y meddyg ond gallai toriadau yn y system olygu na fydd yn gallu cael apwyntiad.
2. Nid yw pobl bob amser yn byw yn unol â'r label a gânt. Nid yw'r broffwydoliaeth hunangyflawnol bob amser yn deillio o labelu.
3. Mae'r gwaith ymchwil a wneir gan ryngweithredwyr ym maes iechyd ac anabledd yn ansoddol ac ar raddfa fach iawn ac felly nid yw'n ddiogel cyffredinoli ar sail y canlyniadau.

© WJEC CBAC LTD 2017

## Adran 5 - Ffeminist

Defnyddiwch yr adnodd rhyngweithiol a'r wybodaeth isod i ddeall y ddamcaniaeth ffeministaidd

Esboniadau ffeministaidd

Mae nifer o ffeministiaid yn gweithio ym maes iechyd ac anabledd.

Mae tri math yn arbennig, sef ffeministiaid rhyddfrydol, ffeministiaid Marcsaidd a ffeministiaid radical.

Mae gan bob un ohonynt esboniad gwahanol o iechyd ac anabledd. Mae'n bwysig na chânt eu 'gwthio' at ei gilydd ac y gwahaniaethir rhwng o leiaf rai ohonynt. Mae rhai cysyniadau allweddol cyffredinol y dylech fod yn gyfarwydd â nhw:

Tasg 1: Cysylltwch y canlynol â chymdeithasegydd:

Patriarchaeth, rheolaeth gymdeithasol, y corff, cysylltiadau rhywedd, natur pŵer rhyweddol, meddyginioli, merched fel gofalwyr.

Tasg 2: Gwerthuswch y ddogfen ar ffeministiaid a chyfosodwch y wybodaeth, gan gynnwys y pwyntiau allweddol, cysyniadau allweddol a chymdeithasegwyr allweddol ar gyfer pob un.

(*Gallai hyn fod ar ffurf posteri*)

Gwerthuswch esboniadau ffeministaidd o iechyd a salwch [40]

Cyfeiriwch at y deunyddiau asesu enghreifftiol er mwyn edrych ar y cynllun marcio cyffredinol yn gyntaf. Ystyriwch beth y mae angen i chi ei wneud er mwyn cyrraedd y bandiau marciau uchaf.

Defnyddiwch y canllawiau ar gyfer ysgrifennu traethawd yn adran saith isod.

Unwaith y byddwch wedi ysgrifennu'r traethawd, amlygwch y geiriau gwerthusol a ddefnyddiwyd gennych, wedyn tanlinellwch y cymdeithasegwyr a'r cysyniadau perthnasol a ddefnyddiwyd gennych.

© WJEC CBAC LTD 2017

## Adran 6 - Ôl-foderniaeth

Defnyddiwch yr adnodd rhyngweithiol a'r wybodaeth isod i ddeall y ddamcaniaeth ôl-foderniaeth

Esboniadau ôl-foderniaeth

Mae ôl-fodernwyr yn dadlau nad yw'n bosibl egluro iechyd ac anabledd gan ddefnyddio metaddamcaniaethau megis swyddogaetholdeb neu Farcsaeth.

Maent yn dadlau na all y model iechyd biofeddygol egluro pob ffactor sy'n achosi afiechyd ac anabledd. Dywedodd Foucault, er enghraifft, nad oes unrhyw realiti neu wirionedd gwrthrychol.

Mae ôl-fodernwyr yn dadlau y gall meddyginiaethau cyflenwol fodoli'n gyfreithlon ochr yn ochr â'r model biofeddygol. Dau esboniad neu fwy sy'n cystadlu. Maent yn dadlau bod meddygon yn gyffredinol o blaid y farn fiofeddygol am iechyd a salwch ond y gall triniaethau amgen herio'r farn hon, felly hefyd gleifion a all feddu ar fwy o wybodaeth am eu cyflwr na rhai meddygon, er enghraifft, pobl ag ME.

Tasg 1: Rhestrwch gynifer o driniaethau cyflenwol ag y gallwch.

© WJEC CBAC LTD 2017

## Adran 7 – Ysgrifennu traethodau

(AA3) Er mwyn gallu:

- gwerthuso
- trafod
- asesu

mae angen gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o'r gwahanol ddamcaniaethau/esboniadau ar ddysgwyr, ynghyd â dealltwriaeth glir o sut i strwythuro traethawd.

Defnyddiwch y ddogfen 'Ysgrifennu Traethodau' wrth ffurfio cwestiynau ysgrifennu estynedig.

## Adran 8 – Adolygu

Tasg 1: Gwnewch gardiau cysyniad a chardiau gan ddefnyddio cymdeithasegwyr allweddol sy'n gysylltiedig â'r amrywiaeth o ddamcaniaethau. Er mwyn peidio â llethu eich hun, dechreuwch gydag 20 o bob un ac wedyn pan fyddwch yn gyfforddus gyda'r cardiau hynny, ychwanegwch 20 arall. Rhannwch y cerdyn yn hanner gan ddefnyddio'r hanner gwaelod i werthuso.

Mae tudalen 163 o'r llawlyfr i fyfyrwyr gan Holborn, M et al yn fan cychwyn defnyddiol ond bydd angen rhagor o fanylion arnoch ar gyfer pob un.

© WJEC CBAC LTD 2017